Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1079 (Cy. 192)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 40 (Tai-bach) i Gyffordd 42 (Earlswood), Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn sy'n gosod terfyn cyflymder uchaf o 50 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cyffredinol o 70 milltir yr awr a osodir ar draffyrdd gan Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974 (O.S. 1974/502)) ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Mae Rheoliadau Traffordd yr M4 (Port Talbot, Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 Mya) 2004 (O.S. 2004/2179) (Cy. 208) wedi eu dirymu gan y Rheoliadau hyn. Bydd Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41 (Pentyla) i Gyffordd 42 (Earlswood), Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2018 (O.S. 2018/746) (Cy. 144) sydd mewn grym yn y lleoliad uchod yn cael ei ddirymu mewn gorchymyn dirymu ar wahân.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan fod y Rheoliadau hyn yn cadw'r terfyn presennol o 50 milltir yr awr am resymau diogelwch ar y ffordd ac yn ymestyn y darn yr effeithir arno er mwyn lleihau allyriadau o gerbydau a gwella ansawdd yr aer. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar gostau busnes.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1079 (Cy. 192)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 40 (Tai-bach) i Gyffordd 42 (Earlswood), Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Gorffennaf 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *3 Gorffennaf 2019* |
| *Yn dod i rym* | *24 Gorffennaf 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, 3drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 17(2), (3) a (3ZAA) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw gyrff cynrychioliadol y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(10) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 40 (Tai-bach) i Gyffordd 42 (Earlswood), Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019 a deuant i rym ar 24 Gorffennaf 2019.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "traffordd yr M4" yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

### Gosod terfyn cyflymder

**2.** Ni chaiff neb yrru cerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(1) 1984 p. 27. Diwygiwyd adran 17(2) gan baragraff 28(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraff 25 o Atodlen 4 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40), ac Atodlen 8 iddi. Mewnosodwyd adran 17(3ZAA) gan adran 26(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4). Mewnosodwyd adran 134(10) gan baragraff 43(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dirymu**

**3.** Mae Rheoliadau Traffordd yr M4 (Port Talbot, Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 Mya) 2004(**2**) wedi eu dirymu.

*Ken Skates*
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru
2 Gorffennaf 2019

(**2**) O.S. 2004/2179 (Cy. 208).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Rheoliad 2

## DARNAU O DRAFFORDD YR M4

Y darnau a ganlyn o draffordd yr M4 o Gyffordd 40 (Tai-bach) i Gyffordd 42 (Earlswood) ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot—

(a) y brif gerbytffordd o bwynt 3.5 cilometr i'r de-ddwyrain o bier canolog trosbont y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla) hyd at bwynt 4.66 cilometr i'r gogledd-orllewin o bier canolog trosbont y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla);

(b) y ffyrdd ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 40 (Tai-bach) o'r gyffordd â'r brif gerbytffordd hyd at y gyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol cylchfan yr A4107 Tai-bach;

(c) y ffyrdd ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 40 (Tai-bach) o'r gyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol cylchfan yr A4107 Tai-bach hyd at y gyffordd â'r brif gerbytffordd;

(d) y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla) o'i chyffordd â phrif gerbytffordd yr A48 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin;

(e) y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla) o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin am bellter o 783 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-orllewin;

(f) y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 (Pentyla) o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain am bellter o 359 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-orllewin;

(g) y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 42 (Earlswood) o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin am bellter o 266 o fetrau i gyfeiriad y de-orllewin; ac

(h) y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood) o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain am bellter o 235 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-orllewin ac yna i gyfeiriad y de-ddwyrain.